

**CYNLLUN GWERS CALCH**

<b>Pwnc</b>	<b>Uned</b>	<b>Gwers</b>	<b>Cyfnod Allweddol</b>
<b>Hanes</b>	<b>4</b>	<b>Pen y daith</b>	<b>CA2/3</b>
<b>Amcanion dysgu:</b> Erbyn diwedd y wers, dyma beth ddylai'r disgyblion fod wedi'i ddysgu: <ul style="list-style-type: none"><li>• Bydd rhai disgyblion yn deall canlyniadau estynedig y chwarel a'r achos cymhorthdal.</li><li>• Bydd mwyafrif y disgyblion yn deall bod gwahaniaeth mawr rhwng swm y calch a oedd yn cael ei gynhyrchu a'r hyn roedd perchenogion y chwarel yn honni oedd yn cael ei gynhyrchu.</li><li>• Bydd pob disgybl yn deall pam y caeodd y chwareli dros nos.</li></ul>			
<b>Geiriau allweddol:</b> chwarel, twyll, cymorthdaliadau, calch, llys, tystiolaeth, amddiffyniad ac erlyniad			

<p><b>Cyflwyniad:</b> Adolygiad byr o'r hyn sydd wedi cael ei ddysgu'n barod am y safle. Atgoffa'r disgyblion am y newid o ffermwyr yn cloddio'r mynydd am galch ar gyfer eu caeau i fusnes diwydiannol mawr yn cloddio, a hwnnw'n cael ei redeg yn wael a than amodau gwaith anniogel.</p>	<p><b>Amseru</b> (Yn seiliedig ar 60 mun)</p>
<p><b>Prif ran:</b> <b>Mae'n debyg y bydd y wers hon yn fwy addas ar gyfer CA3. Gall bara am ddwy wers awr o hyd yr un, y gyntaf er mwyn i'r disgyblion baratoi eu dadleuon a'r llall ar gyfer actio. Mae'n bosibl y gall dosbarthiadau mwy hyderus gwblhau'r olygfa yn y llys heb fawr ddim cynllunio. Bydd angen lleiafswm o 20 disgybl (yn seiliedig ar reithgor o 5). Gan ddewis aelodau gwahanol o'r dosbarth ar gyfer cymeriadau penodol, awn am y llys!</b> Mae'r cymeriadau'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 1 barnwr (yr athro)</li> <li>• 3 diffynnydd ar brawf (John Jones, William Rees a Thomas Williams)</li> <li>• 3 chwarelwr (James Llewellyn, David Pugh a George Owens)</li> <li>• 2 gyfreithiwr (dewiswch siaradwyr hyderus ar gyfer y cymeriadau hyn)</li> <li>• 1 gyrrwr tryc (Matthew Rees)</li> <li>• 2 blismon (Lloyd Evans a Rhys Griffiths)</li> <li>• 1 wraig i chwarelwr (Bertha Llewellyn)</li> <li>• 1 gweithiwr swyddfa (Sarah Lewis)</li> <li>• 2 ffermwr (Peter Hope a David Price)</li> <li>• Gweddill y dosbarth i fod yn rheithgor sy'n penderfynu</li> </ul> <p>Bydd y disgyblion yn cael cyfle nawr i ddod i wybod am y twyll ynglŷn â'r cymorthdaliadau calch ac i actio'r olygfa yn y llys, gyda rheithgor yn penderfynu ar bwy sy'n euog. Erbyn hyn, bydd gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o'r safle a'i bwysigrwydd yn y gymuned leol. Bydd dau o berchenogion y chwareli a chontractwr cludo, a oedd wedi hawlio cymorthdaliadau yn anghyfreithlon, yn cael eu rhoi ar brawf. Bydd y treial yn archwilio faint o galch oedd yn cael ei gynhyrchu yn y chwarel, faint o gymorthdaliadau gafodd eu hawlio, a'r amodau gwaith ar y safle.</p> <p>O flaen y rheithgor, dylai pobl wahanol gael eu galw a'u croesholi gan gyfreithwyr (yr amddiffyniad a'r erlyniad). Gwahoddir y disgyblion i empathyddio â'u cymeriadau ac i ddadlau'u hachos yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd ganddyn nhw. Dylai'r rheithgor wrando a gwneud nodiadau ar bob tyst.</p> <p><b>Cyn i'r rheithgor dreulio 10-15 munud yn ystyried ei reithfarn, dylai'r barnwr grynhoi prif bwyntiau'r achos.</b></p>	
<p><b>Sesiwn lawn:</b> Bydd y rheithgor yn rhoi ei reithfarn ar ba un a oedd perchenogion y chwarel yn euog neu'n ddieuog o dwyll. Rhaid iddyn nhw roi rhesymau am eu penderfyniad a gosod cosb fel y gwelon nhw orau.</p> <p>Yn olaf, dylai'r barnwr grynhoi'r achos, yn seiliedig ar reithfarn y rheithgor. Dylid treulio ennyd yn ystyried sut mae hyn yn adlewyrchu'r hyn ddigwyddodd mewn gwirionedd a beth oedd canlyniad go iawn yr achos.</p> <p><b>**Sylwch fod yr enwau wedi cael eu newid er mwyn gwarchod hunaniaeth y bobl a oedd yn gysylltiedig â'r achos.**</b></p>	

**Gwahaniaethu:**

Dylai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gael eu hintegreiddio i'r wers hon. Dylen nhw gael cymeriadau y maen nhw'n gyfforddus â nhw. Gellid ystyried gosod disgyblion mwy galluog a thalentog fel yr erlyniad a'r amddiffyniad neu fel perchenogion y chwarel.

**Asesu:** Gallai'r disgyblion gymryd rhan mewn asesu cyfoedion ar ddiwedd y wers a thrafod effaith y ddadl ar ganlyniad yr achos.

**Adnoddau:** cardiau cymeriad, taflen rheithgor, PowerPoint

**Cysylltiadau â llythrennedd/rhifedd:**

**Llythrennedd** – gellir cysylltu'r wers hon â llythrennedd yn y ffyrdd canlynol:

- *Gofynnir i'r disgyblion siarad yn eglur gan ddefnyddio iaith briodol*
- *Casglu a threfnu gwybodaeth o ffynonellau amrywiol*
- *Ehangu ar syniadau gyda rhesymau cefnogol*
- *Dewis a threfnu syniadau a gwybodaeth er mwyn rhoi adroddiad eglur a llawn*
- *Dadlau achos yn argyhoeddiadol, gan ddefnyddio gwybodaeth am y pwnc yn effeithiol*
- *Cyflwyno pynciau a syniadau yn eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol, ac amrywio'r hyn maen nhw'n ei ddweud a sut maen nhw'n ei ddweud er mwyn ennyn diddordeb y gwrandawyr.*
- *Ymateb i gwestiynau a sylwadau'r gwrandawyr yn adeiladol ac yn fanwl.*
- *Ymateb yn feddylgar i syniadau disgyblion eraill, gan ofyn cwestiynau perthnasol.*
- *Gwrandao ar esboniadau ar brosesau, dilyniannau neu safbwyntiau, a nodi'r prif bwyntiau yn eu trefn.*

**Rhifedd** – gellir cysylltu'r wers hon â rhifedd yn y ffyrdd canlynol:

- *Amseru digwyddiadau a threfnu canlyniadau*
- *Dod i gasgliadau o'r data a chydabod y gall rhai casgliadau fod yn gamarweiniol neu'n ansicr.*

**Mae i'r wers hon gysylltiadau trawsgwricwlaidd â Drama hefyd.**